COFNODION CYFARFOD Y PANEL APELIADAU A GYNHALIWYD YN REMOTELY - VIA MICROSOFT TEAMS DYDD GWENER, 22 EBRILL 2022, AM 10:00

Presennol

Y Cynghorydd PA Davies – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| N Clarke | DRW Lewis | JE Lewis | JR McCarthy |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

JC Radcliffe

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Mark Galvin | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd Dros dro |
| Andrew Rees | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |

26. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim.

27. CYMERADWYAETH COFNODION

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo cofnodion cyfarfodydd y Panel Apeliadau y 4 Chwefror, 19 Ebrill, 27 Ebrill, 20 Mai a 9 Rhagfyr 2021 fel cofnod gwir a chywir.

28. GWAHARDD Y CYHOEDD

PENDERFYNWYD: O dan Adran 100A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007, bod y cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod tra byddai'r eitemau busnes canlynol yn cael eu hystyried am eu bod yn cynnwys gwybodaeth oedd wedi ei heithrio fel y'i diffiniwyd ym Mharagraffau 12 a 18 o Ran 4 a/neu Baragraff 21 o Ran 5 o Atodlen 12A y Ddeddf.

Yn dilyn cymhwyso prawf lles y cyhoedd, penderfynwyd, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati uchod, ystyried yr eitemau canlynol yn breifat, gyda'r cyhoedd wedi eu gwahardd o'r cyfarfod, gan yr ystyrid yn yr holl amgylchiadau yn ymwneud â'r eitemau, fod lles y cyhoedd mewn cynnal yr eithriad yn gorbwyso lles y cyhoedd mewn datgelu'r wybodaeth, am y byddai'r wybodaeth yn niweidiol i'r ymgeiswyr a grybwyllwyd felly.

29. CYMERADWYAETH COFNODION WEDI'U EITHRIO

Daeth y cyfarfod i ben am 10:11